

LEWIS, GEORGE ('Eiddil Llwyn Celyn'; 1826? - 1858), crydd a bardd

Enw: George Lewis
Ffugenw: Eiddil Llwyn Celyn
Dyddiad geni: 1826?
Dyddiad marw: 1858
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: crydd a bardd
Maes gweithgaredd: Diwydiant a Busnes; Barddoniaeth
Awdur: Watkin William Price

Ganwyd mewn bwthyn ym mynydd-dir sir Gaerfyrddin, mab gweithiwr amaethyddol ag iddo deulu mawr. Ychydig o addysg a gafodd, ond yr oedd iddo ddiddordeb dwfn mewn barddoniaeth Gymraeg. Daeth gyda'i deulu i Heolylfelin (Trecynon), gan weithio wrth ei grefft o grydd a rhoi rhai o'i oriau hamdden i farddoni a chystadlu mewn eisteddfodau lleol. Enillodd wobwr yn eisteddfod y Carw Coch (Stag Inn) - gweler *Gardd Aberdar*, 1854 - a gwobrwyon eraill ym Mlaenau Gwent a Llanilltyd Faerdref. Bu farw Chwefror 1858 yn yr oedran cynnar o 32, gan adael gweddw a naw o ferched bach. Cyhoeddodd ei frawd William Lewis ('Cawr Dâr'), a 'Carw Coch' (W. William), lyfryn yn cynnwys ei weithiau, *Telyn y Gweithiwr, caneuon, pryddestau, ac englynion ... Dros ei Weddw a'i amddifaid galarus*, 1859.

Awdur

Watkin William Price, (1873 - 1967)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawffraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Arddull APA



Price, W. W., (1953). LEWIS, GEORGE ('Eiddil Llwyn Celyn'; 1826? - 1858), crydd a bardd. Y *Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 19 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-LEWI-GEO-1826>

Preifatrwydd a Chwcis
Hawffraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGELL
THE NATION





Wladfa
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government